



Dysgu Dyslecsia- gyfeillgar

Beth yw dysgu da i ddysgwyr sydd â dyslecsia?

Barn yr arbenigwyr yw bod angen i'r dysgu fod yn amlsynhwyrdd ac yn strwythuredig, yn adeiladu cam wrth gam. Heb os, mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cwrdd â'r meini prawf hyn yn llwyr.

Rhaid cofio mai unigolion yw dysgwyr sydd â dyslecsia. Awgrymir mai cam cyntaf y tiwtor yw holi'r dysgwyr am yr hyn a fydd o gymorth e.e. gall rhai ofyn am dderbyn taflenni gwaith ar bapur lliw.

Fodd bynnag, yn ogystal â rhoi cymorth unigol, mae modd cynllunio gwersi dyslecsia-gyfeillgar. Mae dysgu da i ddysgwyr sydd â dyslecsia yn ddysgu da i bawb yn y dosbarth.

Ar y tudalennau canlynol mae casgliad o syniadau dysgu dyslecsia-gyfeillgar. Bydd rhai'n ddefnyddiol mewn gwersi rhithiol ac eraill yn fwy addas i wersi wyneb yn wyneb.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddyslecsia a dysgu dyslecsia-gyfeillgar yn y llyfrau hyn:

- ▶ Guise, J., Guise, N. and Reid, G. The Big Book of Dyslexia Activities for Kids and Teens, Jessica Kingsley Publishers, 2018 (Gellir addasu rhai o'r gweithgareddau ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.)
- ▶ Iwanczak Forsyth, K. a Power, K. Llyfr Llundain Dyslecsia a'i Bobl Ryfeddol, Graffeg, ISBN 9781913733803
- ▶ Reid, G. The Dyslexia Workbook for Adults, Rockridge Press, 2020
- ▶ Snowling, M.J. Dyslexia: A Very Short Introduction, Oxford, 2019



Awgrymiadau am Ddysgu Dyslecsia-gyfeillgar

- ▶ Ar ddechrau'r cwrs, dosbarthwch Gynllun Gwaith y flwyddyn i helpu'r dysgwyr deall swmp a natur y cwrs.
- ▶ Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, dosbarthwch fapiau meddwl yn dangos cynnwys unedau'r cwrs.
<http://www.mindmapping.com/>
- ▶ Gosodwch waith cartref ar ddechrau'r wers ar lafar a hefyd yn ysgrifenedig.
- ▶ Eglurwch y nodau dysgu ar ddechrau'r wers yn ogystal â'u rhoi'n ysgrifenedig.
- ▶ Cofiwch fod copïo o'r bwrdd yn amhosib i rai dysgwyr.
- ▶ Gadewch i ddysgwyr dynnu ffotos o'r hyn sy'n cael ei ysgrifennu ar y bwrdd.
- ▶ Darllenwch yn uchel unrhyw eirfa sy'n codi yn ystod y wers ac sy'n cael ei hysgrifennu ar y bwrdd.

▶ Drilio

Arbrofwch gyda dulliau drilio e.e. Mae'n bosibl rhoi amser i'r dysgwyr ddarllen y brawddegau, dyfalu neu ddarllen yr ystyr a rhoi cynnig ar ynganu mewn grwpiau bach cyn i'r tiwtor fynd ati i ddrilio.

Cofiwch fod rhai agweddau ar ddrilio yn fwy anodd na a'i gilydd e.e. mae dril disodli yn fwy anodd na dril ailadrodd.

Wrth ddrilio unigolion gadewch ddigon o amser iddyn nhw ymateb.

▶ Geirfa'r Uned

Anogwch y dysgwyr i flaenoriaethu a dysgu'r geiriau sy'n ddefnyddiol iddyn nhw.

Cynhaliwch unrhyw brofion geirfa mewn ffordd na fydd yn codi cywilydd.

Arbrofwch gyda dulliau dysgu geirfa yn y dosbarth.
<http://www.smartlanguagelearner.com/experts-reveal-method-learning-vocabulary/>

▶ Deialogau'r unedau

Rhowch amser i'r dysgwyr fwrw golwg dros y ddeialog cyn gofyn iddyn nhw ddarllen yn uchel.

Gwnewch lawer o ailadrodd fel dosbarth cyfan.

Gofynnwch am wirfoddolwyr i ddarllen yn uchel.

Gofynnwch i'r dysgwyr ymarfer mewn paru gan ddefnyddio amrywiaeth o leisiau neu'n esgus bod yn grac, yn hapus, yn ddiflas a.y.b.

- ▶ Cynigiwch ddewis o ffyrdd o gyflawni gwaith cartref e.e. teipio neu recordio ffeil sain yn hytrach nag ysgrifennu.
- ▶ Marciwch waith cartref yn glir e.e. rhifo'r gwallau ac ysgrifennu eich sylwadau / cywiriadau ar ddarn arall o bapur.
- ▶ Cofiwch fod marcio eu gwaith ysgrifenedig eu hunain neu farcio gwaith dysgwyr eraill yn amhosib i lawer o ddysgwyr â dyslecsia.
- ▶ Cynlluniwch amrywiaeth o weithgareddau a dulliau i sicrhau bod y dysgwyr yn defnyddio'r holl sgiliau: siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, ym mhob gwrs.
- ▶ Cofiwch fod unigolion â dyslecsia'n debyg o angen mwy o amser i gyflawni tasgau.
- ▶ Gofynnwch am wirfoddolwyr yn hytrach na dewis unigolion i ddarllen yn uchel yn y dosbarth.
- ▶ Tynnwch sylw at siâp y geg wrth ddysgu ynganu.
- ▶ Helpwch y dysgwyr i gadw trefn ar eu papurau e.e. sicrhau eu bod yn ffeilio taflenni cyn gadael yr ystafell ddosbarth. Dylid gwneud hyn mewn modd sensitif yn y dosbarth rhithiol hefyd.
- ▶ Ar ddiwedd y wers helpwch y dysgwyr i baratoi at y wers nesaf. Esboniwch beth fydd yn cael ei ddysgu a dosbarthu unrhyw daflenni ychwanegol.
- ▶ Defnyddiwch ganllawiau Cymdeithas Dyslexia Prydain (BDA) wrth baratoi adnoddau:
<https://www.bdadyslexia.org.uk/advice/employers/creating-a-dyslexia-friendly-workplace/dyslexia-friendly-style-guide>
- ▶ Byddwch yn ofalus i osgoi tynnu sylw at unigolion araf wrth ddefnyddio gweithgareddau gydag elfen o bwysau amser e.e. cwisiau a pholau. Os bydd enwau dysgwyr yn ymddangos ar y sgrîn, gadewch iddyn nhw ddefnyddio llysenwau.

